# Llyfr gweithgareddau Deinosoriaid yng Nghymru

national museum cardiff
amgueddfa genedlaethol caerdydd




Yn 2014, daeth dau frawd o hyd i esgyrn ffosil deinosor bach mewn creigiau ar draeth ger Penarth. Flwyddyn yn ddiweddarach, daeth myfyriwr o hyd i esgyrn o droed y deinosor.

Dyma'r sgerbwd deinosor cigysol (bwyta cig) cyntaf i gael ei ddarganfod yng Nghymru, ac mae'n fath newydd sbon o ddeinosor! Ei enw yw *Dracoraptor*, neu 'draig-leidr'.

Eich enw:

---

Os fyddech chi'n darganfod math newydd o ddeinosor, beth fyddech chi'n ei alw?

---

*Mae'r llyfryn gweithgareddau hwn yn bosibl diolch i rodd gan Noddwyr Amgueddfa Cymru*

national museum wales amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Casgliad o esgyrn

Chwiliwch am y blociau ffosil sy'n cynnwys esgyrn *Dracoraptor* yn y brif neuadd. **Edrychwch yn ofalus ar y ffosilau.**

Defnyddiwch y rhifau ar y lluniau o'r ffosilau a'r sgerbwd i ddarganfod pa un yw pa asgwrn.

Mae'r esgyrn yn y bloc hwn o ffosilau yn dod o glun ac asgwrn cefn y deinosor.
**Tynnwch linellau i ddangos lle mae'r esgyrn i fod ar sgerbwd y deinosor:**




# Picnic y deinosoriaid

Mae dannedd miniog y *Dracoraptor* yn dangos ei fod yn bwyta cig.

**Beth fyddai deinosor cigysol yn ei fwyta mewn picnic ar y traeth?**

**Gwnewch wledd iddo.**

Edrychwch ar y deinosoriaid yn yr oriel i gael syniadau.





Mae gwyddonwyr yr Amgueddfa yn meddwl bod y *Dracoraptor* yn bwyta madfallod, trychfilod a mamaliaid bychan.

# Hunlun gyda deinosor!

Chwiliwch am y deinosoriaid hyn yn yr oriel Esblygiad Cymru.

**Darllenwch y cliwiau a llenwi eu henwau.**



Rwy'n perthyn yn agos i'r *Dracoraptor*. Rwy'n fach ac yn bwyta cig.

Fy enw yw: ***C*** _ _ _ _ _ _ _ _ _ ***s***



Cafodd fy ngên ei darganfod ger Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n dangos fy nannedd miniog. Byddwn wedi bwyta *Dracoraptor* i swper!

Fy enw yw: ***M*** _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ ***s***



Gallwch weld fy olion ger Sili. Mae ffosilau o fy nannedd bychan, fflat yn dangos mai planhigion oeddwn i'n fwyta, er fy mod yn edrych yn filain.

Fy enw yw: ***P***_ _ _ _ _ _ _ _ _ _***s***



Fi yw brenin y deinosoriaid! Roeddwn i'n byw filiynau o flynyddoedd ar ôl *Dracoraptor* ond rydym yn debyg mewn rhai ffyrdd.

Fy enw yw: ***T***_ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _***s***

Pan oedd y *Tyrannosaurus* yn byw, roedd tir Cymru dan y môr, felly ni ddaeth yma – ddim hyd yn oed ar ei wyliau!

# Ôl troed y deinosoriaid

**Allwch chi guro'ch troed fel deinosor?**

Gadawodd rhai deinosoriaid olion troed mewn mwd. Chwiliwch am ffosilau olion troed yn yr oriel.

**Allwch chi:**

**Hopian ar un droed?**
**Cerdded mewn llinell syth?**
**Crwydro o gwmpas?**

Mae'r llun hwn yn dangos olion deinosoriaid Cymreig.
**Beth oedd y deinosoriaid hyn yn ei wneud, tybed?**




Gwnewch saeth i ddangos pa ffordd mae'r deinosor hwn yn mynd:



# Cliwiau ffosil

Help! Cafodd y ffosilau hyn eu darganfod gyda'r *Dracoraptor* ond maen nhw wedi colli eu labeli.

**Tynnwch linell rhwng pob ffosil a'i label cywir, cyn eu lliwio.**





Roedd yr anifeiliaid hyn i gyd yn byw yn y môr.
Mae hyn yn dangos i ni fod y *Dracoraptor* yn byw ar y tir, er bod ei sgerbwd wedi llithro i'r môr yn y pendraw.

**Sut aeth y sgerbwd i'r môr?**

# Pa mor hen?

Roedd y *Dracoraptor* yn byw amser maith yn ôl – hyd yn oed i ddeinosor!

Edrychwch ar y llinell amser hon. Mae'n dweud pryd oedd rhai deinosoriaid, a'r mamoth blewog, yn byw.
**Rhowch saeth ar y llinell amser i ddangos pryd oedd y *Dracoraptor* yn byw:**



# Beth ydych chi'n feddwl?

Mae gwyddonwyr yn defnyddio tystiolaeth i greu darlun o ddeinos Defnyddiwch y dystiolaeth ar y llwybr hwn – a'ch dychymyg – i dynnu llun o'r *Dracoraptor*.



Roedd y deinosor hwn yn byw wrth y môr

Roedd yn:

gigysol gyda dannedd miniog

deinosor ifanc oedd angen osgoi cael ei fwyta

O'i esgyrn gallwn ddweud:


Roedd ganddo dri bys ar bob troed

Roedd yn cerdded ar ddwy goes

Roedd ganddo gynffon hir

# What do you think?

Scientists use evidence to build up their picture of a dinosaur. Use the evidence in this trail and your imagination to draw what *Dracoraptor* might have looked like.



This dinosaur lived by the sea

It was:

a meat eater with sharp teeth

a young dinosaur who needed to avoid being eaten

From its bones we can tell that:

It had three toes on each foot

It walked on two legs

It had a long tail